


*Gosber a Chwmplyn y
Fendigaid Forwyn Fair
yn ôl Arfer Caersallog
o'r Oesoedd Canol*

*Nos Fercher 8 Mehefin 2011
Eglwys Gadeiriol Bangor
5.30 pm*



Y
PROFIAD
O ADDOLI

Mae Gosber a Chwmplin yn hen wasanaethau mynachaidd a gynhelir gyda'r nos a phan mae ar dywyllu. Cawsant eu mabwysiadu gan yr Eglwys Orllewinol yn ei chyfanrwydd. Erbyn diwedd yr Oesoedd Canol roedd yn gyffredin iddynt gael eu canu gyda'i gilydd gyda'r nos cyn i'r mynaich fynd i'w gwelyau.

Pan luniodd Yr Archesgob Cranmer y Llyfr Gweddi Cyffredin, mabwysiadodd elfennau o'r ddau wasanaeth, gan eu cyfuno i ffurfio gwasanaeth cyfarwydd Y Gosber, fel y gellir gweld o'r pwyslais ar adrodd salmau a chynnwys y cantiglau, *Magnificat* (o'r Gosber) a *Nunc Dimitis* (o'r Cwmplin). Heno cenir y gwasanaethau'n gyfan gwbl mewn plaengan Ladin (gyda chyfieithiadau yn y llyfr hwn) i anrhodeddu Mair, mam Iesu. Mae hyn yn adlewyrchu'r drefn arferol a welid mewn llawer o gymunedau crefyddol led led yr Eglwys Orllewinol (gan gynnwys yr eglwys gadeiriol hon) hyd at y Diwygiad Protestannaidd.

Rhoddir lle arbennig i'r Fendigaid Forwyn Fair yn yr Oesoedd Canol, a chynhelid cylch ar wahân o wasanaethau i'w hanrhydeddu yn ddyddiol. Yn aml byddai bechgyn côr yr eglwysi cadeiriol a'r mynachlogydd yn cymryd rhan amlwg yn y rhain. Roedd hyn yn arbennig o wir yng Ngwledydd Prydain. Mae'r pwyslais ar yr Ymgawdoliad, sy'n dal yn nodwedd o'r Eglwys Anglicanaidd, yn cynnwys pwysigrwydd lle Mair fel Mam y Duw a gymerodd arno natur dyn: Iesu, y gwaredwyr a'r prynwr. Mae thema Fariaidd i'r darleniadau a'r gweddïau ac yn dilyn y Cwmplin ceir yr antiffon *Salve regina*, a genir yng Nghapel y Forwyn wrth ymyl y ddelw o Fair – yn union fel y byddai aelodau'r côr wedi ei wneud yn Eglwys Gadeiriol Bangor hyd at y Diwygiad Protestannaidd.

Fel yn yr Oesoedd Canol yma ym Mangor, cenir y gwasanaeth yn y Lladin ac mae'r siantiau yn rhai'r Arfer Caersallog, a oedd yn gyffredin i lawr o Loegr a Chymru bryd hynny. Mae'r daflen hon yn rhoi arweiniad i'r gwasanaeth i'r rhai sy'n dymuno dilyn y testunau. Ar y llaw arall, mae'n bosibl defnyddio'r amser i fyfyrion ar rodd ddwyfol yr Ymgawdoliad, a'r rhan a gymerodd Mair fel cynrychiolydd merched yn gyffredinol.

Mae'r siantiau ar gyfer Gosber a Chwmplin i gyd wedi cael eu trawsgrifio o'r *Sarum Antiphoner* o 1519–20. Fe'i hargraffwyd gan Wolfgang Hopyl, prif argraffydd siantiau litwrgiaidd a fu'n gweithio ym Mharis o ddiwedd y 1480au hyd ei farwolaeth yn 1523. Mae'r testunau Priodol eraill (yn cynnwys y salmau) wedi cael eu cymryd o'r Llyfr Gwasanaeth Lladin canoloesol, a daw'r antiffon clo, *Salve Regina* o argraffiad 1519 o'r *Sarum Processional*, a argraffwyd gan Hopyl.

Daw cyfieithiadau Cymraeg y salmau a'r gwersiglau o *Y Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn Yr Eglwys yng Nghymru*. Daw cyfieithiadau o ddarleniadau, antiffonau ac emynau (yn y mesurau caeth) o *Gwassanaeth Mair*, fersiwn Gymraeg ganoloesol o'r *Little Office of the Virgin* y gwyddys oedd yn bodoli o tua 1400.

Gosber

Paw i sefyll ar gyfer mynediad y Schola.

Rhagarweiniad

V. Deus in adiutorium meum intende. R. Domine ad adiuvandum me festina.

V. Gloria Patri et Filio et Spiritui Sancto.

R. Sicut erat in principio et nunc et semper et in secula seculorum. Amen. Alleluia.

G. Duw, brysia i'n cynorthwyo. A. Arglwydd, prysura i'n cymorth.

G. Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab: ac i'r Ysbryd Glân;

A. Megis yr oedd yn y dechreu, y mae'r aur hon, ac y bydd yn wastad: yn oes oesoedd. Amen.

Alleluya.

Pawb i eistedd tra bydd y Schola yn canu Salm 122 a 123. Pawb i droi i'r allor ar gyfer 'Gloria Patri' ar ddiweddf bob salm.

Antiffon (incipit)

Post partum Virgo ...

Salm 121 (122)

1 Letatus sum sum in his, que dicta sunt mihi: domum Domini ibimus.

2 Stantes erant pedes nostri in atriis tuis, Ierusalem.

3 Ierusalem, que edificatur ut civitas, cuius participatio eius in idipsum.

4 Illuc enim ascenderunt tribus, tribus Domini, testimonium Israel, ad confitendum nomini Domini.

5 Quia illic sederunt sedes in iudicio, sedes super domum David.

6 Interrogate que ad pacem sunt Ierusalem: et abundantia diligentibus te.

7 Fiat pax in virtute tua et abundantia in turribus tuis.

8 Propter fratres meos et proximos meos loquebar pacem de te.

9 Propter domum Domini Dei mei exquisivi bona tibi,

Gloria Patri, et Filio, et Spiritui Sancto, Sicut erat in principio, et nunc, et semper, et in secula seculorum. Amen.

1 *Llawenychais pan ddywedent wrthyf: A wn i dŷ'r Arglwydd.*

2 *Ein traed a safant o fewn dy byrth di : O Jerusalem.*

3 *Jerusalem a adeiladwyd : fel dinas wedi ei chyd-gyssylltu ynddi ei hun.*

4 *Yno'r esgyn y llwythau, llwythau'r Arglwydd : yn dystiolaeth i Israel, i foliannu Enw'r Arglwydd.*

5 *Canys yno y gosodwyd Gorseddfeingciau barn : gorseddfeingciau tŷ Ddafydd.*

6 *Dymunwch heddwch Jerusalem : llwydded y rhai a'th hoffant.*

- 7 *Heddwch fyddo o fewn dy ragfur : a ffyniant yn dy balasau.*
 8 *Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion: y dywedaf yn awr, Heddwch fyddo i ti.*
 9 *Er mwyn tŷ'r Arglwydd ein Duw: y ceisiaf i ti ddaioni.*
Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Yspryd Glân;
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastad: yn oes oesoedd. Amen.

Salm 122 (123)

- 1 Ad te levavi oculos meos, qui habitas in celis.
 2 Ecce sicut oculi servorum, in manibus dominorum suorum.
 3 Sicut oculi ancille in manibus dominæ sue: ita oculi nostri ad Dominum, Deum nostrum, donec misereatur nostri.
 4 Miserere nostri, Domine, miserere nostri: quia multum repleti sumus despectione:
 5 Quia multum repleta est anima nostra: opprobrium abundantibus, et despicio superbis.
 Gloria Patri.

- 1 *Attat ti y dyrchafaff y llygaid : ti yr hwn a breswyli yn y nefoedd.*
 2 *Wele, fel y mae llygaid gweision ar law eu meistraid, neu fel y mae llygaid llawforwyn ar law ei meistres : felly y mae ein llygaid ni ar yr Arglwydd ein Duw, hyd oni thrugarhao efe wrthym ni.*
 3 *Trugarhâ wrthym, Arglwydd, trugarhâ wrthym : canys llanwyd ni â dirmyg yn ddirfawr.*
 4 *Yn ddirfawr y llanwyd ein henaid â gwatwargerdd y rhai goludog : ac â diystyrwch y beilchion.*
Gogoniant i'r Tad.

Antiffon (llawn)

Post partum Virgo inviolata permansisti: Dei Genitrix, intercede pro nobis.

Darlleniad

Beata es Maria que Dominum portasti creatorem mundi: genuisti qui te fecit et in eternum perennes virgo.

Gwynnuydic wyt, Veir wyry, ti a ymdugost Arglwyd Creawdyr byt; ti a vegeist y neb a'th wnaeth, ac byth yd wyt yn trigaw yn vorwyn.

Emyn

- | | |
|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1 Ave maris stella,
Dei mater alma
Atque semper virgo,
Felix celi porta. | <i>Meir wyry discleir, diweir, uawr uoredyd,
 Morseren Iuyswen, laeswan leueryd,
 Hanpych gwell, diell, dien Uam Douyd;
 Hanpom hwyl diffrom, diffrost, digelwyd,
 Hanpo heb untro, tra fydd di ganmawl,
 Bchedawl borth nefawl dutawl detwyd.</i> |
|-----------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

2 Sumens illud Ave
Gabrielis ore,
Funda nos in pace,
Mutans Heve nomen.

3 Solve vincla reis,
Profer lumen cecis,
Mala nostra pelle,
Bona cuncta posce.

4 Monstra te esse matrem,
Sumat per te preces,
Qui pro nobis natus
Tulit esse tuus.

*Kymereist, keueist kymeryat uuyd,
Kyuarch ytt yr parch, perchen llywenyd;
Egylyawl annerch, verch Anna glotryd,
Egylawl areith, eur oror eluyd;
Par ynn dagnefnef, Nafryyd ym maeth
Vam pennaeth ehalaeth o hil Dauyd.

Gellwng rwym echwng achwyn llu bedyd,
Gwrthlad, Veir, o'n grad gredauawl aflonyd;
Kynnull oleu dull y deillon efryd,
Kynnal y'th ardal eurdemyl gyfluyd;
Cannerth didrafferth drwy ffyd a geisswn,
Credwn y caffwn cofeu kerennyd.

Dangos glot o'th uot, y'th uadyein gynnyd,
Yn haeluam dinam Duw nef dragywyd;
Clywet ef yn llef, llafar digeryd,
O'n gwedieu, geireu boyneu beunyd,
Dy Vab diarab, daeeryd furuawdyr,
Nef greawdyr, nef hwyllyawdyr, heui ysplennyd.*

Gwers

V. Diffusa est gratia in labiis tuis. R. Propterea benedixit te Deus in aeternum.

Pawb i seyll ar gyfer Cantigl yr Efengyl a'r Colect.

Antiffon (incipit)

Sancta Maria ... *Sancta Maria ...*

Magnificat, Cân Mair (Luc I)

1 Magnificat: anima mea Dominum.
2 Et exultavit spiritus meus in Deo salutari meo.
3 Quia respexit humilitatem ancillae suae: ecce enim ex hoc beatam me dicent omnes generationes.
4 Quia fecit mihi magna, qui potens est: et sanctum nomen eius.
5 Et misericordia eius, a progenie et progenies: timentibus eum.
6 Fecit potentiam in brachio suo: dispersit superbos mente cordis sui.
7 Deposit potentes de sede: et exaltavit humiles.
8 Esurientes implevit bonis: et divites dimisit inanes.
9 Suscepit Israel puerum suum: recordatus misericordiae suae.
10 Sicut locutus est ad patres nostros: Abraham, et semini eius in secula.
Gloria Patri, et Filio, et Spiritui Sancto,
Sicut erat in principio, et nunc, et semper: et in secula seculorum. Amen.

1. *Fy enaid a fawrha yr Arglwydd : a'm hyspryd a lawenychodd yn Nuw fy Iachawdwr.*
2. *Canys efe a edrychodd ar ostyngeiddrwydd ei wasanaethyddes.*
3. *Oblegid wele, o hyn allan yr holl genhedlaethau a 'm geilw yn wynfydedig.*
4. *Canys yr hwn sydd alluog a wnaeth i mi fawredd a sanctaidd yw ei Enw ef.*
5. *A'i drugaredd sydd yn oes oesoedd : ar y rhai a'i hofna ef.*
6. *Efe a ddangosodd nerth a'i fraich : efe a wasgarodd y rhai beilchion ym mwriadau eu calonnau.*
7. *Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u heisteddfâu: ac a ddyrchafodd y rhai isel radd.*
8. *Efe a lanwodd y rhai newynog â phethau da : ac a anfonodd ymaith y rhai goludog mewn eisiau.*
9. *Efe a gynorthwyodd ei was Israel, gan gofio ei drugaredd : fel y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i had, yn dragywydd.*
Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab : ac i'r Ysbryd Glân;
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae'r awr hon, ac y bydd yn wastad: yn oes oesoedd. Amen.

Antiffon (llawn)

Sancta Maria succurre miseris, iuva pusillanimes, refove flebiles,
ora pro populo, interveni pro clero, intercede pro devoto femineo sexu.

*Santes Veir, nertha drueinyon; kynhorthwya letreidussyon; kymorth wylouussyon;
gwestia dros y bobyl; kyfrwgdyret drosyr ysgolheigion; kyfrwgdarostwg dros ovunedawl wreigyaawl
ysglen.*

Colect

G. Dominus vobiscum. A. Et cum spiritu tuo.

Oremus. Concede nos famulos tuos, quesumus, Domine Deus, perpetui mentis et corporis salute gaudere: et gloriosa beate Marie semper virginis intercessione a presenti liberari tristicia: et eterna perfrui letitia. Per Dóminum nóstrum Jésum Chrístum Fílium túum: Qui técum vívit et régnat, in unitáte Spíritus Sáncti. Déus, per omnia secula seculorum. Amen.

G. *Yr Arglywdd a fo gyda chwi. A. A chyda'th ysbryd dithau.*

Canhatta ynni, dy Weissyon di, Arglwyd Duw, ni a adolygwn ytt, yn llawenhau o dragywydawl iechyt eneit a chorff; a thrwy ogonedus gyfrwgdarostygedigaeth gwynuydic Veir, wastatdawl wyry, yn rydhau o agkyfreith tristyt, a ferfeithia a aner obonam ni o lewenyd tragedywydawl. Trwy Grist yn Harglywyd ni. Amen.

Diwedd

V. Dominus vobiscum. R. Et cum spiritu tuo.

V. Benedicamus Domino. R. Deo gratias.

G. Yr Arglywdd a fo gyda chwi. A. A chyda'th ysbryd dithau.
V. Bendithiwn yr Arglwydd. R. Diolch a fo i Dduw.

Cwmplin

Rhagarweiniad

V. Deus in adiutorium meum intende. R. Domine ad adiuvandum me festina.

V. Gloria Patri et Filio et Spiritui Sancto.

R. Sicut erat in principio et nunc et semper et in secula seculorum. Amen. Alleluia.

G. Duw, brysia i'n cynorthwyo. A. Arglwydd, prysura i'n cymorth.

G. Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab: ac i'r Ysbryd Glân;

A. Megis yr oedd yn y dechreu, y mae'r awr hon, ac y bydd yn wastad: yn oes oesoedd. Amen.

Alleluya.

Pawb i eistedd tra bydd y Schola yn canu Salmau 13 a 43. Pawb i droi i'r allor yn ystod y 'Gloria Patri' ar ddiwedd bob salm.

Antiffon (incipit)

Cum iocunditate.

Salm 12 (13)

1 Usquequo, Domine, oblivisceris me in finem? usquequo avertis faciem tuam a me?

2 Quamdiu ponam consilia in anima mea; dolorem in corde meo per diem?

3 Usquequo exaltabitur inimicus meus super me? Respice, et exaudi me, Domine Deus meus.

4 Illumina oculos meos, ne umquam obdormiam in morte; 5 nequando dicat inimicus meus : Prævalui adversus eum.

5 Qui tribulant me exsultabunt si motus fuero; ego autem in misericordia tua speravi.

6 Exsultabit cor meum in salutari tuo. Cantabo Domino qui bona tribuit mihi; et psallam nomini Domini altissimi. Gloria Patri.

1 Pa hŷd, Arglwydd, y'm hanghofi? ai yn dragwyd : pa hŷd y cuddi dy wyneb rhagof?

2 Pa hŷd y cymeraf gynghorion yn fy enaid, gan fod blinder beunydd yn fy nghalon : pa hŷd y dyrchefir fy ngelyn arnaf?

3 Edrych, a chlyw fi, O Arglwydd fy Nuw : goleua fy llygaid, rhag i mi huno yn yr angau.

4 Rhag dywedyd o'm gelyn, Gorchfygais ef: ac i'm gwrthwynebwyr lawenychu, os gogwyddaf.

5 Minnau hefyd a ymddiriedais yn dy drugaredd di; fy nghalon a ymlawenycha yn dy iachawdwriaeth : Canaf i'r Arglwydd, am iddo synio arnaf; ie, canmolaf Enw'r Arglwydd Goruchaf.

Salm 42 (43)

1 Judica me, Deus, et discerne causam meam de gente non sancta : ab homine iniquo et doloso erue me.

2 Quia tu es, Deus, fortitudo mea : quare me repulisti ? et quare tristis incedo, dum afflit me inimicus ?

3 Emitte lucem tuam et veritatem tuam : ipsa me deduxerunt, et adduxerunt in montem sanctum tuum, et in tabernacula tua.

4 Et introibo ad altare Dei, ad Deum qui lætificat juventutem meam.

5 Confitebor tibi in cithara, Deus, Deus meus. Quare tristis es, anima mea ? et quare conturbas me ?

6 Spera in Deo, quoniam adhuc confitebor illi: salutare vultus mei, et Deus meus.

Gloria Patri.

1 Barn fi, O Dduw, a dadleu fy nadl yn erbyn y genhedlaeth annhrugarog : gwarred fi rhag y dyn twyllodrus ac anghyflawn.

2 Canys ti yw Duw fy nerth; paham y'm burri ymaith : paham yr af yn alarus trwy orthrymder y gelyn ?

3 Anfon dy oleuni a'th wirionedd; tywysant hwy fi : ac arweiniant fi i fynydd dy sancteiddrwydd, ac i'th bebyll.

4 Yna'r af at allor Duw, at Dduw hyfrydwch fy ngorfoledd : a mi a'th foliannaf ar y delyn, O Dduw, fy Nuw.

5 Paham y'th ddarostyngir, fy enaid ? a phaham y terfysgi yn of: gobeithia yn Nuw; canys etto y moliannaf ef, sefiachawdwriaeth fy wyneb, a'm Duw. Gogonian ...

Emyn

1 Virgo singularis,
Inter omnes mitis,
Nos, culpis solutos,
Mites fac et castos.

2 Vitam presta puram,
Iter para tutum,
Ut videntes Iesum,
Semper colletemur.

*Odidawc wyry donyawc, dawn gymbelyd,
Didawl wawr dwywawl, diwael gerennyd,
Gwna vi, Vam Geli, o gilieu yn ryd,
Yn diweir eiryoies waryon gerennyd.*

*Mamaeth y bennaeth, obenyd nefawl,
Gwawt dynawl] a'th uawl, volyant areglyd.*

*Tro wed yn buched o bechawt meryd,
Trwy hynt diogel, rac trwm vuelyd,
Heb gwl na medwl na mod agheluyl
Y gael goruoled, geir volyant newyd,
A gwelet [mynet] mynyd mawr a llu
lessu, frwyth dy vrw, vrenhin holl wledyd.*

3 Sit laus Deo Patri,
Summo Christo decus,
Spiritui Sancto,
Tribus honor unus. Amen.

*Molyant mawr y'r Tat, tadawc pob defnyd,
A'r Plant, a'r Yspryt Sant, saint ardemlyd;
Holl nerthoed nefoed y Naf o'n broyd
Goruoled a ryssed eu rysueyd;
Gogonyant, medyant medyd ber wirawt,
Y'r Drindawt, undawtt vndut presswylyd. Amen.*

Gwers

V Elegit eam Deus et preelegit eam. R. Et habitare eam facit in tabernaculo suo

Pawb i sefyll ar gyfer Cantigl yr Efengyl a'r Colect.

Antiffon (incipit)

Glorificamus.

Nunc dimittis. (Luc ii. 29)

1 Nunc dimittis servum tuum, Domine, secundum verbum tuum in pace:
2 Quia viderunt oculi mei salutare tuum
3 Quod parasti ante faciem omnium populorum:
4 Lumen ad revelationem gentium, et gloriam plebis tue Israel.
Gloria Patri.

*1 Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd : yn ol dy air.
2 Canys fy llygaid a welsant : dy iachawdwriaeth,
3 Yr hon a barottoaist : ger bron wyneb yr holl bobl;
4 Ifod yn oleuni i oleuor Cenhedloedd : ac yn ogoniant i'th bobl Israel.
Gogoniant i'r Tad.*

Antiffon (llawn)

Glorificamus te Dei genitrix: quia ex te natus est Christus: salva omnes qui te glorificant.

Colect

V. Dominus vobiscum. R. Et cum spiritu tuo.

Oremus. Concede nos famulos tuos quesumus Domine Deus, perpetua mentis et corporis salute gaudere: et gloria beate Marie semper virginis intercessione a presenti liberari tristitia: et eterna perfrui leticia. Per eundem Christum Dominum nostrum Jesum Christum Filium tuum. Amen.

G. Yr Arglywdd a fo gyda chwi. A. A chyda'th ysbryd dithau.

Canhatta ynni, dy weissyon di, Arglwyd Duw, ni a adolygwn ytt, yn llawenhau o dragwydawl iechyt eneit a chorff; a thrwy ogonedus gyfrwgdarostygedigaeth gwynuydic Veir, wastatdawl wyry, yn rydhau o agkyfreith tristyt, a ferfeithia a aner ohonam ni o lewenyd tragicwydawl. Trwy Grist yn Harglwyd ni. Amen.

V. Dominus vobiscum. R. Et cum spiritu tuo.

V. Benedicamus Domino. R. Deo gratias.

Mae'r Schola yn symud i Gapel Mair.

Pawb i benlinio neu eistedd wrth i'r Schola yn canu yr Antiffon Salve Regina.

Antiffon y Fendigaid Forwyn Fair

Salve Regina, mater misericordie, vita, dulcedo, et spes nostra, Salve.

Ad te clamamus exules filii Eve.

Ad te suspiramus, gementes et flentes in hac lacrimarum valle.

Eya ergo, advocata nostra, illos tuos misericordes oculos ad nos converte,
et Jhesum benedictum fructum ventris tui nobis post hoc exilium ostende.

Virgo mater ecclesie, eterna porta glorie, esto nobis refugium apud patrem et filium.

O clemens.

Virgo clemens, Virgo pia, Virgo dulcis, O Maria, exaudi preces omnium ad te pie clamancium.

O pia.

Funde preces tuo nato, crucifixo, vulnerato, et pro nobis flagellato, spinis puncto, felle potato.

O mitis.

Gloriosa dei mater, Cuius natus extat pater, Ora pro nobis omnibus, Qui tui memoriam agimus. O pulcra.

Dele culpas miserorum, Terge sordes peccatorum, Dona nobis beatorum, vitas tuis preciorum.
O dulcis Maria.

Hanpych gwell, Vrenhines y drugared, ynbwyt, a'n digrifwch, a'n gobeith; hanpych gwell. Attat y llefun ni, alltudyon veibyon Eua; attat yd uceheneidywn drwy gwynvan ac wylofein yg glyn y dagreu hwnn. Wrth hynny byrssya, yn dadleuwreic ni; treicla attam dy trugarogyon lygeit a dangos inni; gwedy yr alltuded hwnn, y bendigedic Iessu frwyth dy groth di.

O berffeithdec safwrber Veir wyry, hanpych gwell.

O drugarawc.

O waredawc.

Gwers

V. Ave Maria, gracia plena, Dominus tecum. R Benedicta tu in mulieribus.

Colect

Oremus. Omnipotens sempiterne Deus, qui gloriose Virginis et Matris Marie corpus et animam, ut dignum Filii tui habitaculum effici mereretur, Spiritu Sancto cooperante, mirabiliter preparasti: da, ut cuius commemoratione letamur; eius pia intercessione, ab instantibus malis, a subitanea morte et improvisa liberemur. Per eundem Dominum nostrum Jesum Christum Filium tuum: Qui tecum vivit et regnat in unitate Spiritus Sancti Deus, per omnia secula seculorum. Amen.



Mae'r gwasanaeth heno yn un o ddeilliannau *Y Profiad o Addoli* mewn Eglwys Gadeiriol ac Eglwys Blwyf Ganoloesol Ddiweddar, project ymchwil o bwys, a gomisiynwyd gan Gyd-Raglen Ymchwil AHRC/ESRC ar Grefydd a Chymdeithas, a than arweiniad Yr Athro John Harper, Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor.

Prif amcan y project yw archwilio'r math o brofiad a gâi pobl wrth addoli tua diwedd yr Oesoedd Canol, a'r modd y gallwn gysylltu ein profiad presennol o ymweld ag eglwysi cadeiriol ac eglwysi sy'n dal i sefyll, o fewn y testunau, yr artefactau a'r gerddoriaeth a ddefnyddid ar un adeg o'u mewn.

Am fwy o fanylion, ewch at www.experienceofworship.org.uk

Hoffem ddiolch o galon i Ddeon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Bangor heno am eu lletygarwch a'u cymorth.